COFNODION - CYFARFOD BLYNYDDOL
CYNGOR CYMUNED PISTYLL

DYDDIAD	**Nos Fawrth – 14eg o Fehefin 2022**
AMSER	**7 y.h. – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor**
LLEOLIAD	**Festri Capel Isaf**
CADEIRYDD	**Ynyr Ellis**

1.	**CROESO**
	Croesawodd Ynyr Ellis (YE) pawb i'r cyfarfod. Oherwydd oblygiadau gwaith nid oedd posib i Sianelen Pleming (SP) fynychu'r cyfarfod. Roedd wedi cytuno mlaen llaw i weithredu fel Cadeirydd am gyfnod 2022 - 2023. Croesawodd Lois Fychan (LF); Sara Williams (SW); William Jones (WJ) a'r clerc gan ymestyn croeso arbennig i'r Cyng. Jina Gwyrfai (JG) i'w chyfarfod cyntaf.
2.	**YMDDIHEURIADAU**
	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sianelen Pleming **(SP)**; Lisbeth James **(LJ)**; Olwen Roberts **(OR);** Emlyn Hughes **(EH**); Griffith John Leslie Jones **(GJLH);** Gethin Jones **(GJ)**.
3.	**ETHOL CADEIRYDD AC IS GADEIRYDD**
	Cynigwyd SP fel cadeirydd gan SW gyda WJ yn eilio a phawb yn cytuno. Cynigwyd LF fel Is-gadeirydd gan WJ gyda SW yn eilio a phawb yn cytuno.
4.	**CADARNHAU CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2021**
	Cynigwyd cywirdeb y cofnodion gan WJ gyda SW yn eilio a phawb yn cytuno.
5.	**TREFNIADAU DIRPRWYO I BWYLLGORAU, IS-BWYLLGORAU, (YN CYNNWYS SWYDDOG PRIODOL A SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL) A PHENODI UNRHYW BWYLLGORAU NEWYDD**
	Cytunodd yr aelodau i barhau i drafod fel undeb mewn cyfarfod misol. Cynigiodd WJ gyda SW yn eilio i'r Clerc barhau fel Swyddog Cyfrifol a Swyddog Ariannol y Cyngor, cytunodd pawb.
6.	**CYNRYCHIOLAETH AR NEU WAITH GYDA CHYRFF ALLANOL A THREFNIADAU AR GYFER ADRODD YN ÔL**
	Cynigiodd YR ac eiliodd WJ I SP barhau i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor y Ganolfan a Phwyllgor y Cae Chwarae - cytunodd pawb.
7.	**TANYSGRIFIADAU'R CYNGOR A/NEU STAFF I GYRFF ERAILL**
	Cynigiodd WJ ac eiliodd YR i'r Clerc barhau fel cynrychiolydd y Cyngor gydag Un Llais Cymru.

8.	**RHEOLAU SEFYDLOG**
	Adolygwyd a mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog.
9.	**RHEOLAU ARIANNOL**
	Adolygwyd y Rheolau Ariannol cytunodd pawb eu bod yn gyfredol.
10.	**STOCRESTR O DIR AC ASEDAU GAN GYNNWYS ADEILADAU AC OFFER SWYDDFA AR GYFER YSWIRIANT**
	Cynigiodd YR cywirdeb y rhestr gyda WJ yn eilio a phawb yn cytuno.
11.	**GWEITHDREFN CWYNION Y CYNGOR**
	Cynnigiodd SW gyda WJ yn eilio i fabwysiadwyd gweithdrefn cwynion y Cyngor.
12.	**GWEITHDREFNAU'R CYNGOR AR GYFER TRIN CEISIADAU A WNAED O DAN DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000 A DEDDF DIOGELU DATA 1998**
	Cynigiodd WJ ac eiliodd YR fabwysiadu'r weithdrefn. Cytunodd pawb
13.	**POLISI'R CYNGOR AR GYFER DELIO Â'R WASG/CYFRYNGAU**
	Adolygwyd y Polisi. Cynnigiodd SW ei gywirdeb gyda WJ yn eilio a phawb yn cytuno.
14.	**COD YMDDYGIAD**
	Cynigiodd SW gyda WJ yn eilio i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad.
15.	**CADARNHAU CYNLLUNIAU CRONFEYDD WRTH GEFN**
	Cytunwyd bydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio ar les y gymuned.
16.	**ADOLYGU TREFNIADAU LWFANS CYNGHORWYR**
	Cytunodd yr aelodau optio allan o dderbyn y lwfans.
17.	**PENNU AMSERLEN CYFARFODYDD CYFFREDIN**
	Cyfarfodydd Cyffredinol I gychwyn am 7y.h ar ail nos Fawrth yn fisol, ni fydd cyfarfod fis Awst. Lleoliad l'w gadarnhau yn ystod y cyfarfod misol.